RHA 08
Ymgynghoriad ar yr hawl i dai ddigonol
Consultation on the right to adequate housing
Ymateb gan: Partneriaid 'Cefnogi'r Bil' - Tai Pawb, CIH Cymru a Shelter Cymru
Response from: Back the Bill' partners - Tai Pawb, CIH Cymru and Shelter Cymru

*Ymateb i'r Ymgynghoriad i Ymchwiliad Byr i'r*

# HAWL I DAI DIGONOL YNG NGHYMRU

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai | Mawrth 2023

**Cyflwynwyd ar y cyd gan bartneriaid 'Cefnogi'r Bil' Tai Pawb, CIH Cymru a Shelter Cymru**

*Cyflwynir yr ymateb hwn ar y gyd gan bartneriaid clymblaid 'Cefnogi'r Bil - yr hawl i gartref da', sef Tai Pawb, CIH Cymru a Shelter Cymru. Mae 'Ni' ac 'Ein' yn cyfeirio at sefydliadau partner.*

Mae'r ymateb hwn yn cael ei gefnogi gan y sefydliadau canlynol:

Diverse Cymru

Pobl Housing Group

Blaenau Gwent County Borough Council

Rydym yn croesawu diddordeb y pwyllgor yn yr hawl i dai digonol yng Nghymru drwy lansio'r ymchwiliad byr hwn. Rydym wedi defnyddio'r cyfle hwn i ddarparu cefndir i daith yr ymgyrch hyd yma. Mae ein cyflwyniad yn ystyried y tri adroddiad sylweddol yr ydym wedi'u comisiynu hyd yma, a bydd yn cyfeirio atynt yn helaeth, sef:

**Yr Hawl i Dai Digonol: astudiaeth ddichonoldeb, Mehefin 2019**

- Crynodeb gweithredol
- Adroddiad llawn

**Yr Hawl i Dai Digonol: cronfa dystiolaeth, Rhagfyr 2021**

- Executive summary (English)
- Crynodeb Gweithredol (Cymraeg)
- Full report (English)
- Adroddiad llawn (Cymraeg)

**Yr Hawl i Dai Digonol: dadansoddiad cost a budd, Gorffennaf 2022**

- Full report (English)
- Adroddiad llawn (Cymraeg)

## YR HAWL I DAI DIGONOL - CIPOLWG

- Mae gan Senedd Cymru y gallu i ymgorffori hawl i dai digonol yng nghyfraith Cymru, yn unol â'r Cyfamod Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR).
- Mae yna dri model ar gyfer ymgorffori'r cyfamod; model ar y cyd o ymgorffori uniongyrchol ac anuniongyrchol fyddai'n creu'r sylfaen gryfaf ar gyfer atebolrwydd ac yn trawsnewid y cytuniad hawliau dynol i fod yn gyfraith ddomestig. Mae unigolion hefyd yn gallu ceisio cyfiawnder
- O dan gydsyniad 'gwireddu graddol', mae'r hawl llawn yn cael ei ryddhau dros amser pan fo cyllid canolog gweithredu ar y cyd yn ysgogi cyflenwad tai (addas) ychwanegol ac yn rhoi diwedd ar ddigartrefedd.
- Byddai'r ddeddfwriaeth drwy'r Bil Drafft arfaethedig yn creu ymrwymiad wedi'i rwymo mewn cyfraith i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r 'adnoddau mwyaf posibl sydd ar gael'. Gweinidogion fydd yn cyfiawnhau beth fydd lefel yr adnoddau - po fwyaf yr adnoddau, y mwyaf a'r gorau fydd y cyflenwad, a byddir yn gallu gwireddu'r hawl yn gyflymach.
- Mae enghreifftiau rhyngwladol o hawl i dai digonol mewn cyfraith ddomestig yn dangos cyfleoedd a gwersi. Gall Cymru arwain y ffordd yn ei ymagwedd tuag at dai fel hawl dynol
- Mae tystiolaeth yn dangos bod tai o ansawdd gwael, neu ddiffyg mynediad at dai o gwbl, yn effeithio'n sylweddol ar unigolion yn ogystal â phwrs y wlad, yn arbennig o ran iechyd, addysg a chyfleoedd bywyd yn gyffredinol.
- Mae hawl i dai digonol yn cynrychioli cyfle 'buddsoddi i arbed' sylweddol - mae ein dadansoddiad cost a budd wedi canfod y byddai Llywodraeth Cymru yn arbed £11.5bn ar draws ystod o feysydd polisi cyhoeddus
- Mae'r cytundeb cydweithredu rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru yn ymrwymo i gyhoeddi Papur Gwyn ar hawl i dai digonol a rhent teg.
- Mae hawl i dai digonol yn cydnabod yr amrywiol broblemau sy'n deillio o'r argyfwng tai, ga helpu i daclo materion allweddol megis digartrefedd, fforddiadwyedd, addasrwydd llety a sicrwydd deiliadaeth
- Byddai ymgorffori hawl i dai digonol yng nghyfraith Cymru yn cynrychioli'r newid cyntaf mewn cenhedlaeth yn y pwysigrwydd a roddwn i dai fel maes polisi, ond yr un mor bwysig, fel ysgogydd iechyd a lles allweddol.
- **Rydym yn dadlau'n sylfaenol bod pawb yng Nghymru yn haeddu'r hawl i gartref sy'n ddiogel, sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ac y gallant ei fforddio.**

## CEFNDIR

Mae ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol tuag at bolisi cyhoeddus wedi cael ei drafod a'i eiriol ers peth amser yng Nghymru. Er mwyn gallu rhoi gwell cefnogaeth i'r cysyniad o ymgorffori'r Hawl i Dai Digonol, fel y nodir hynny yn yr ICESCR (Cyfamod Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol) ("y Cyfamod") i Gyfraith Cymru, daeth Tai Pawb, CIH Cymru a Shelter Cymru i fod yn bartneriaid 'Cefnogi'r Bil' yn gynnar yn 2019.

Dechreuodd yr ymgyrch yn swyddogol rhyw 18 mis ar ôl trychineb Tŵr Grenfell yn Llundain. Rydym yn credu bod y drychineb honno wedi dod i gynrychioli sut rydyn ni wedi methu'r bobl sydd mwyaf mewn angen – y rheini y mae angen y gofynion dynol mwyaf sylfaenol arnynt: rhywle diogel i'w alw'n gartref.

Gan fyfyrio'n benodol ar drychineb Grenfell, dywedodd Geraldine Van Bueren QC, Athro Cyfraith Hawliau Dynol Rhyngwladol ym Mhrifysgol Queen Mary, Llundain a Chymrawd Gwadd yng Ngholeg Kellogg, Rhydychen:

"Pe bai hawl i dai digonol yn y Deyrnas Unedig, byddai dyletswydd gyfreithiol wedi bod ar y Llywodraeth a'r awdurdod lleol i ystyried, yn amserol ac o ddifri, y pryderon diogelwch a godwyd gan drigolion Tŵr Grenfell cyn i'r amodau fynd yn beryglus i fywyd."

Hefyd, yn ystod pandemig COVID-19 - pan mai'r neges sylfaenol gan lywodraethau ledled y byd oedd 'aros gartref' - taflwyd mwy o oleuni ar ein dealltwriaeth o'r cysyniad o gartref. Tybiwyd bod gan bobl lety addas a chynaliadwy, y gallu ariannol i aros gartref, neu hyd yn oed gartref o gwbl - roedd/mae'r realiti mewn gormod o achosion yn wahanol iawn.

Ysgrifennodd Leilani Farha, cyn Rapporteur Arbennig y CU ar dai digonol yn y Guardian ym mis Ebrill 2020:

*"Mae wedi cymryd pandemig marwol byd-eang i siglo llywodraethau a sbarduno dealltwriaeth bod cael cartref diogel yn elfen ganolog o'n goroesiad fel pobl."*

Y darlun digalon hwn o'r argyfwng tai yw sail y sgwrs sylfaenol mae'n rhaid i ni ei chael fel cenedl. Wrth wraidd unrhyw ateb i'r argyfwng tai dylai fod ymrwymiad cenedlaethol i'r egwyddor sylfaenol fod gan bob un ohonom ni hawl ddynol, wedi'i seilio ar y gyfraith, i gael mynediad i dai digonol a chynaliadwy. Mae'n rhaid i gysyniad o 'gartref' i bawb sydd yn saff a diogel, sydd yn addas i'w hanghenion ac y gallant ei fforddio, fod yn rhan ganolog o drawsnewid y cyd-destun tai yng Nghymru mewn ffordd gadarnhaol - a byd hynny yn y pen draw yn helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd yn llwyr a sicrhau bod y system dai yn addas i'r diben. Hefyd, bydd dull seiliedig ar hawliau yn newid y paradeim yr ystyrir tai drwyddo fel ysgogydd allweddol (a phenderfynydd) mewn perthynas â gwell iechyd, lles, addysg, gweithgarwch economaidd a chyfleoedd bywyd yn gyffredinol, gan sicrhau yn y pen draw ei fod yn denu mwy o sylw polisi a buddsoddiad.

## Tai ac anghydraddoldeb yng Nghymru

Yn seiliedig ar ymchwil gan Shelter Cymru, mae un o bob tri o bobl yng Nghymru yn byw mewn tai anniogel neu anfforddiadwy.[1] Fe wnaeth y pandemig amlygu'r anghydraddoldebau hyn yn y sector tai gan i'r cyfnodau clo orfodi pobl yng Nghymru i dreulio cyfnodau maith yn y cartref. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd rhai dinasyddion yn treulio amser mewn tai o ansawdd da gyda digon o ofod byw ynddynt, roedd eraill yn byw mewn amodau tai gorlawn o ansawdd gwael, tra bod unigolion eraill wedi dioddef digartrefedd.

Yn seiliedig ar arolwg gan Shelter Cymru (2020), yn ystod y cyfnod clo roedd 32% o aelwydydd yn byw mewn tai gyda pheryglon, yn cynnwys damp, llwydni, peryglon trydanol, yn ogystal â thoeau neu ffenestri yn gollwng. Roedd costau tai cynyddol, gostyngiad ym maint y sector rhentu cymdeithasol a thwf rhentu preifat wedi cyfrannu at fwy o anghydraddoldeb tai ((UK Collaborative Centre for Housing Evidence, 2021). Ym mis Medi 2021 amcangyfrifwyd bod tua 130 o bobl yn cysgu allan yng Nghymru, tra bod tua 7,000 mewn llety dros dro.[2] (Nid yw hyn yn ystyried 'digartrefedd cudd', er enghraifft pan nad yw unigolion yn cael eu hadnabod gan y system bresennol fel rhai sydd angen llety).

Fe wnaeth y pandemig amlygu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar gyfer rhai grwpiau o'r boblogaeth o ran cael mynediad i dai digonol. Un o'r grwpiau hynny yn pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd yn anghymesur o debygol o fyw mewn tai gorlawn, ac sydd yn wynebu risg uwch o fod yn ddigartref. Mae ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches hefyd yn wynebu anghydraddoldebau tai yn cynnwys anawsterau wrth gael mynediad i dai digonol o

[1] ITV, 2021. "'Shocking' new figures demonstrate scale of housing crisis in Wales amidst calls for immediate Welsh Government action". Ar gael yn: https://www.itv.com/news/wales/2021-05-26/shocking-new-figures-demonstrate-scale-of-housing-crisis-in-wales-amidst-calls-forimmediate-welsh-government-action

[2] StatsCymru, Medi 2021. "Homelessness accommodation provision and rough sleeping". Ar gael yn: https://gov.wales/homelessnessa ccommodation-provision-and-rough-sleeping-september-2021

ganlyniad i hiliaeth, gwahaniaethu, anghydraddoldeb neu ffactorau strwythurol. Mae unigolion o'r gymuned LGBTQ+ yn bedair gwaith fwy tebygol o fod yn ddigartref o'u cymharu â'u cyfoedion. Grŵp arall yn y boblogaeth sydd yn wynebu anghydraddoldeb tai yw pobl anabl sydd angen byw mewn tai hygyrch sydd yn cefnogi eu diogelwch a'u hannibyniaeth yn eu bywyd bob dydd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan 26% o bobl Cymru rhyw fath o anabledd, a bod gan dros 10% nam symudedd. Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl hŷn fydd â namau corfforol yn codi 50% rhwng 2015 a 2035 (Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018) ond maent yn wynebu Argyfwng Tai Cudd (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2019) - prinder tai hygyrch a system addasu a dyrannu annigonol. Mae tai a digartrefedd hefyd yn faterion rhyweddol yr effeithir arnynt gan y bwlch incwm parhaus rhwng y rhywiau, gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran cyfrifoldebau gofalu, a phrofiad menywod o drais domestig a mathau eraill o aflonyddu, cam-drin a chamfanteisio, yn cynnwys 'rhyw am rent' (WEN Cymru, 2021).

### Cost tai annigonol yng Nghymru

Gall amodau tai gwael a digartrefedd arwain at effeithiau niweidiol ar iechyd corfforol a meddyliol unigolion, mwy o ddefnydd o'r GIG, dirywiad o ran iechyd a hunan-adroddir a gostyngiad mewn disgwyliad oes. Mewn adroddiad yn 2019, amcangyfrifodd Iechyd Cyhoeddus Cymru bod tai gwael yn costio £95m y flwyddyn i'r gwasanaeth iechyd. Amcangyfrifir bod gwasanaethau Cymorth Tai yng Nghymru yn creu arbediad gros o £300.4m Wrth ystyried gwariant blynyddol HSG yng Nghymru, mae hynny yn gyfystyr ag arbediad net o £176.7m (Fury, Montes, Taylor, 2020).

Mae byw mewn tai anaddas neu anfforddiadwy yn gysylltiedig â deilliannau addysgol gwael i blant. Mae gan aelwydydd sydd â mynediad at dai fforddiadwy fwy o incwm ar gael y gellir ei ddefnyddio ar gyfer maeth, sydd yn rhoi mwy o help i blant berfformio'n well yn yr ysgol.

Mae yna dystiolaeth bod gwella digonoldeb tai yn gysylltiedig â lefelau cynhyrchiant uwch a gweithgarwch economaidd. Mae diffyg tai fforddiadwy a digonol yn gysylltiedig â chysylltiadau cynyddol â'r system cyfiawnder troseddol. Mae tai annigonol yn tueddu i beidio â bod yn effeithlon o ran ynni, sydd yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr a lefelau isel o gysur thermol. Fe wnaeth Nicol et al. (2019) archwilio enghraifft o astudiaeth achos[3] gan ganolbwyntio ar gostau a buddion gwella anheddau Cymru gyda sgôr effeithlonrwydd ynni o 21. Byddai gwelliannau i gartrefi yn cynnwys inswleiddio atig, gosod gwydr dwbl a gwella'r system gwresogi, allai arwain at gynnydd yn sgôr effeithlonrwydd ynni yr adeilad i 57. Hefyd byddai allyriadau $CO_2$ yr annedd a chost blynyddol tanwydd yn gostwng 53% a 49% yn ôl eu trefn.

## BARN Y CYHOEDD AC YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Canfu pôl You Gov yn 2020 ar ran Sefydliad Tai Siartredig (CHI) Cymru[4] o tua 1,000 o unigolion yng Nghymru bod 77% o bobl o blaid cyflwyno hawl cyfreithiol i dai a bod 83% yn cytuno y dylai'r llywodraeth fod yn gyfrifol am sicrhau bod gan bawb fynediad at gartref addas.

Pan gyhoeddwyd ein Bil Drafft ar yr un pryd â'r pôl fe wnaeth llofnodwyr allweddol ledled y gymuned tai, cynrychiolwyr etholedig a chomisiynwyr, academyddion ac elusennau ac arweinwyr yn y trydydd sector, gefnogi'r alwad i gyflwyno hawl i dai digonol. Hyd yma mae gennym dros 60 o lofnodwyr sy'n cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau.

[3] https://phw.nhs.wales/news/the-cost-of-poor-housing-in-wales/the-full-cost-of-poor-housing-in-wales/
[4] https://www.cih.org/news/three-quarters-support-legal-right-to-housing-in-wales

Mae ein hadroddiadau a'r Bil Drafft ar gael ar wefan Tai Pawb, ble gall cefnogwyr hefyd gofrestru i 'gefnogi'r Bil'.

Mae partneriaid wedi cynnal trafodaethau gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Conffederasiwn GIG Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, darparwyr tai unigol ac awdurdodau lleol a nifer o sefydliadau tai a sefydliadau anghydraddoldeb.

Rydym yn bwriadu parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, er gwaethaf yr ymgynghoriadau ar y Papur Gwyrdd a'r Papur Gwyn.

**Y DAITH HYD YMA**

Ym Mehefin 2019, cyhoeddodd partneriaid Cefnogi'r Bil, ynghyd â Dr Simon Hoffman o Brifysgol Abertawe, adroddiad o'r enw "The Right to Adequate Housing in Wales: Feasibility Study", a oedd yn amlinellu pam a sut gallai'r hawl gael ei hymgorffori'n llawn yng nghyfraith Cymru yn seiliedig ar ICESCR. Mae'r astudiaeth hon yn amlinellu trywydd gydag amrywiol opsiynau.

**Hawliau dynol, ymgorffori a gorfodi**

Mae hawliau dynol yn amddiffyn pobl a grwpiau cymdeithasol rhag ymyrraeth anghyfiawn gan y wladwriaeth ac yn gwarantu i bawb lefel sylfaenol o hawl mewn meysydd allweddol o ran darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus - yn cynnwys tai. Mae'r Deyrnas Unedig (DU) yn barti i saith cytuniad hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig (CU). Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfamod Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (CESCR) sydd yn gwarantu hawliau i amodau cymdeithasol megis cyflogaeth ac amodau gwaith teilwng, gofal iechyd a gofal cymdeithasol, yswiriant cymdeithasol, a safon byw digonol. Mae'r CESCR hefyd yn gwarantu'r hawl i dai digonol.

Gwnaeth nifer o gyrff a sefydlwyd gan y CU i fonitro cytuniadau, sydd yn monitro cydymffurfiaeth genedlaethol â chytuniadau hawliau dynol, argymhellion i ymgorffori cytuniadau hawliau dynol mewn cyfreithiau cenedlaethol. Gall ymgorffori fod yn uniongyrchol, anuniongyrchol neu'n sectoraidd (y cyfeirir ato isod).

**Pam a sut y dylai Cymru ymgorffori mewn cyfraith**

Rhoddodd Pwyllgor y CU ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, sydd yn gyfrifol am fonitro hawl i dai yn rhyngwladol, sylw ar y 'sefyllfa gritigol barhaus' o ran tai yn y DU, gan argymell yn barhaus y dylid ymgorffori hawliau cymdeithasol rhyngwladol yn cynnwys tai. Yng Nghymru, fel gwledydd datganoledig eraill, mae yna lefelau uchel o ddigartrefedd, cynnydd mewn cysgu allan, prinder tai fforddiadwy, diffyg difrifol o lety hygyrch wedi'i addasu i bobl anabl, diffyg sicrwydd deiliadaeth a phroblemau o ran llety is na'r safon.

Bydd polisi lles llywodraeth y DU, nad yw'n ddatganoledig, yn effeithio' uniongyrchol ar sut y bydd pobl yn profi'r hawl i dai digonol yng Nghymru. Ond, mae tai yn fater datganoledig ac mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i sicrhau (cymaint â phosibl) bod yw hawl i dai digonol yn cael ei barchu, ei ddiogelu a'i wireddu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau sydd yn gyson â'r hawl i dai digonol, er enghraifft, drwy gynyddu dyletswyddau atal digartrefedd, dyletswyddau i ddarparu llety i Sipsiwn a Theithwyr. A hyrwyddo dulliau Tai yn Gyntaf i daclo digartrefedd. Mae ein hadroddiad yn dangos nad yw hyn yn ddigonol fodd bynnag er mwyn bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan yr hawl i dai digonol.

Mae colli'r gwarant gan Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd yn dilyn Brexit wedi rhoi symbyliad newydd i'r galwadau i ymgorffori mwy o hawliau dynol yng Nghymru. Hawliau cymdeithasol yw'r hawliau dynol sydd yn fwyaf perthnasol i alluoedd Y Senedd a Llywodraeth Cymru, gyda'r potensial i ddarparu fframwaith arweiniol ar gyfer gweithredu polisi a deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig. Yn bwysig, er nad oes gan Senedd Cymru y gallu i ymrwymo ei hun gytuniadau hawliau dynol rhyngwladol (gwneir hynny ar lefel y DU) MAE ganddo'r pŵer i'w goruchwylio â'u gweithredu, yn cynnwys yr ICESCR a'r hawl i dai digonol. Mae'n opsiwn sydd ar gael i Weinidogion i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer deddfu gan Senedd Cymru at ddibenion rhoi grym i (oruchwylio a gweithredu) cytuniadau hawliau dynol y mae'r DU eisoes yn Wladwriaeth sy'n Barti iddynt, er mwyn cynnwys yr ICESCR neu'r hawl i dai digonol fel hawl neilltuol.

Wrth ystyried y ffordd orau o roi hawliau dynol ar waith yng Nghymru, mae'r astudiaethau dichonolrwydd yn ystyried tair opsiwn ar gyfer ymgorffori - yn anuniongyrchol drwy ddyletswydd sylw dyledus (Opsiwn A), yn uniongyrchol drwy ddyletswydd cydymffurfio (Opsiwn B) neu fabwysiadu dull deuol. Mae Opsiwn A ac Opsiwn B yn cynnig manteisiol neilltuol, ond heriau hefyd. Byddai cyfuno'r ddau yn ddull deuol yn cynnig y ddwy fantais - fframwaith rhagweithiol cryf ar gyfer llunio polisi, a gorfodaeth gadarn os torrir yr hawl i dai.

Gall Model A hyrwyddo dulliau gweithredu rhagweithiol o ran yr hawl i dai digonol wrth ddatblygu polisi (yn cynnwys deddfwriaeth). Pan fo hynny yn annigonol er mwyn sicrhau bod gweithredu polisi tai yn cydymffurfio â hawliau, byddai Model B yn cael ei ddefnyddio i ddigolledu unigolion neu grwpiau yr effeithir arnynt. Hefyd, mae'n bwysig cydnabod na fyddai unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol ar yr hawl i dai wedi ei hynysu oddi wrth blatfformau polisi eraill. Mewn gwirionedd, byddai'n gwella ac yn ehangu darpariaethau presennol o dan, er enghraifft Deddf Hawliau Dynol 1998 a deddfwriaeth megis Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn rhyngwladol mae yna dystiolaeth o effaith ymgorffori ar hawliau cymdeithasol a hawliau tai, er ei bod yn anodd canfod tystiolaeth o effaith uniongyrchol. Mae hynny oherwydd bod i ba raddau y gwireddir yr hawl yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn cynnwys yr adnoddau sydd ar gael i lywodraeth, agweddau cymdeithasol, anfantais hanesyddol, blaenoriaethau gwleidyddol etc. Ond mae tystiolaeth ryngwladol a thystiolaeth o Gymru a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, yn casglu bod ymgorffori yn arwain at fuddion sylweddol. Mae'r rhai yn cynnwys: cyfleoedd ar gyfer ymgyfreitha strategol a strwythurol er mwyn sicrhau gwell cydymffurfiaeth â hawliau, yn ogystal â chodi statws hawliau a chydnabyddiaeth ddilynol o hawliau mewn polisi a deddfwriaeth. Yn y Ffindir, ble mae tai yn hawl dynol a warentir yn y cyfansoddiad, diffinnir digartrefedd ac fe'i hystyrir fel torri hawl sylfaenol. Arweiniodd hynny at ddatblygu model 'tai yn gyntaf' lwyddiannus iawn (a gostyngiad sylweddol mewn digartrefedd).

Er mwyn cefnogi ymhellach yr egwyddor o ymgorffori'r hawl i dai i gyfraith Cymru, mae ein astudiaeth ddichonoldeb hefyd yn dadansoddi'r effaith gadarnhaol bosibl y gallai ymgorffori hawl i dai digonol ei chael ar rai o'r prif faterion tai sydd yn bodoli heddiw. Ar wahân i roi mwy o ystyriaeth i dai ar lefel draws-polisi, gallai ymgorffori ein helpu i daclo materion megis digartrefedd, gwella sicrwydd deiliadaeth, cynyddu'r ddarpariaeth tai hygyrch, galluogi pobl ifanc i gael mynediad i dai fforddiadwy a sicrhau bod lleisiau tenantiaid yn cael eu clywed.

**Gwireddu'n raddol**

Mae'r hawl i dai digonol yn hawl dynol rhyngwladol. Fe'i nodir yn Erthygl 11(1) yr ICESCR, fel a ganlyn: *'Mae'r Gwladwriaethau sydd yn Bartïon i'r Cyfamod presennol yn cydnabod*

*hawl pawb i safon byw digonol ar gyfer ei hunain a'u teuluoedd, yn cynnwys bwyd, dillad a thai digonol, ac i welliant parhaus mewn amodau byw. Bydd y Gwladwriaethau sydd yn Bartïon yn cymryd camau priodol i sicrhau bod yr hawl hon yn cael ei gwireddu, gan gydnabod at y diben hwn bwysigrwydd cydweithrediad rhyngwladol yn seiliedig ar gydsyniad rhydd.*

Mae'r hawl i dai wedi ei ategu gan ymrwymiad cyffredinol i barchu, gwarchod a gwireddu'r hawl. Gall yr hawl i dai gael ei *wireddu'n raddol*, dros amser. Mae hynny'n golygu ei bod yn ofynnol i'r llywodraeth wneud cynnydd tuag at wireddu'r hawl i'r graddau mwyaf posibl drwy ddefnyddio cymaint o adnoddau ag sydd ar gael. Gelwir hynny yn wireddu'n raddol. Mae gwireddu'n raddol yn golygu bod gan lywodraethau ymrwymiad penodol a pharhaus "i symud mor gyflym ac effeithiol â phosibl" tuag at wireddu'r hawl yn fwy llawn ac eang.

Mae'r ICESCR hefyd yn gwahardd gwahaniaethu ar unwaith ac mae'n mynnu darparu o leiaf lefel graidd o wireddu'r hawl i dai, osgoi digartrefedd, amddifadrwydd a thriniaeth ddiraddiol drwy ddarparu lloches.

**BIL DRAFFT**

Gan weithio'n agos â Dr Simon Hoffman – fel awdur ein hadroddiad dichonoldeb gwreiddiol - ym mis Rhagfyr 2020 fe wnaethom gyhoeddi Bil Drafft (English / Cymraeg) fel ffordd o ddangos beth ellid ei gyflawni mewn deddfwriaeth. *Mae'n bwysig cydnabod mai drafft yw'r Bil a'n bod yn ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid yn barhaus.*

Yn ei ffurf bresennol, byddai'r Bil Drafft ar gyfer yr hawl i dai digonol yn creu fframwaith deddfwriaethol i helpu i fynd i'r afael â rhai o brif faterion y dydd:

Digartrefedd: sicrhau ein bod yn adeiladu ar rai o'r camau a gymerwyd yn ystod argyfwng COVID-19, yn cynnwys buddsoddi cymaint â phosibl mewn tai cymdeithasol a chymorth

Sicrwydd deiliadaeth: cryfhau sefyllfa Llywodraeth Cymru o ran ei ddull gweithredu seiliedig ar hawliau, gan greu gwell cydbwysedd rhwng hawliau tenantiaid i fyw yn ddiogel a hawliau landlordiaid preifat

Tai hygyrch: sicrhau ystyriaeth briodol i hawliau pobl anabl yng nghyd-destun tai, rhoi llais iddynt er mwyn i'r hawliau hynny gael eu cydnabod, a'u gorfodi petai angen.

Mynediad Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl ifanc a grwpiau lleiafrifol neu grwpiau dan anfantais i dai fforddiadwy: pan fyddai angen i awdurdodau lleol ystyried anghenion grwpiau penodol sydd dan anfantais wrth ddatblygu strategaethau lleol a chyflenwad tai fforddiadwy

Adnoddau: bydd hynny yn gwthio tai i fyny'r rhestr o flaenoriaethau polisi, ac yn ei dro yn sicrhau mwy o ffocws o ran adnoddau a buddsoddiad, gan daclo'r diffyg cyflenwad tai difrifol yn ogystal â gwasanaethau cymorth.

Yn Rhan 3 mae'r Bil Drafft yn caniatáu ar gyfer unioni - fel y cyfeiriwyd ato uchod - drwy ymgorffori anuniongyrchol ac uniongyrchol: fframwaith gref a rhagweithiol ar gyfer llunio polisi, a gorfodaeth gadarn os torrir yr hawl i dai.

**SYLFAEN DYSTIOLAETH - GWERSI A CHYFLEOEDD**

Yn 2021, fe wnaethom gomisiynu Alma Economics i gynnal ymchwil annibynnol mewn dau gam. Ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad a nododd sylfaen dystiolaeth ryngwladol mewn perthynas ag ymgorffori'r hawl i dai digonol.

Mae’r hawl ddynol hon wedi’i hymgorffori mewn deddfwriaeth mewn gwledydd megis De Affrica a Canada ac yng nghyfansoddiad gwledydd eraill megis Y Ffindir. Yn fwy diweddar, mae’r Alban wedi cymryd camau tuag at gyflwyno’r hawl hon mewn deddfwriaeth genedlaethol er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei gwireddu'n raddol a’i gorfodi. Ar hyn o bryd mae’r Alban yn y broses o ddrafftio Bil a fydd, ymysg eraill, yn darparu ar gyfer yr hawl i dai.

**Enghreifftiau rhyngwladol o ymgorffori**

Roedd ein hadroddiad yn cyfeirio’n benodol at:

De Affrica, ble mae’r hawl yn draddodadwy ond ble mae’r buddsoddiad mewn cyflenwad tai yn fychan.

Canada, ble ceir ffocws ar lywodraethiant a ble mae deddfwriaeth wedi creu tri chorff atebolrwydd. Ond, er gwaethaf gwireddu'n raddol, nid yw’r hawl hyd yma yn draddodadwy - er y gall dinasyddion gael mynediad i fecanweithiau eraill i sicrhau eu hawl. Mae’r system yng Nghanada yn unigryw ac yn gymharol ‘newydd’, felly mae’n anodd barnu ei effeithiolrwydd hyd yma.

Y Ffindir, ble mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud. Mae’r hawl i dai, ynghyd â hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol eraill, yn rhan o Gyfansoddiad Y Ffindir. Caiff hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol eu deddfu drwy gyfreithiau, gaiff eu hasesu ymlaen llaw gan Bwyllgor Cyfraith Gyfansoddiadol y Senedd cyn iddynt gael eu pasio a’u hystyried yn draddodadwy gan y llysoedd. Mae’r Ffindir hefyd wedi mabwysiadu model Tai yn Gyntaf, sy’n batrwm rhyngwladol sy’n canolbwyntio ar sicrhau bod gan bobl ddigartref fynediad i dai, ac mae’n seiliedig ar y ddamcaniaeth y gellid mynd i’r afael ag unrhyw faterion eraill ar ôl sicrhau tai. Mae hynny wedi cael ei weithredu yn Y Ffindir ar ffurf rhaglenni rhyngwladol, ac mae’r rhaglenni hynny wedi bod yn effeithiol o ran lleihau digartrefedd hirdymor.

Cyfeirir hefyd at Yr Alban, sydd â hawl i dai y gellid ei gorfodi’n statudol, ac sy’n cymryd camau tuag at gyflwyno hawl i dai digonol y gellid ei gorfodi yn ei deddfwriaeth, drwy ymgorffori’r Cyfamod yn uniongyrchol. Mae llwyddiant Yr Alban o ran lleihau digartrefedd yn dibynnu ar fuddsoddiad y llywodraeth a chyflenwad tai cymdeithasol. Mae’r achos yn Yr Alban yn amlygu, er mwyn gwireddu hawl cysylltiedig â thai, ei bod yn hanfodol cyfuno hawl y gellir ei gorfodi’n gyfreithiol gydag ymrwymiad gwleidyddol eang i sicrhau bod yr hawl yn cael ei gwireddu o dan amodau cyllidebol anodd?.

**Gwersi i Gymru**

Mae’r dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad uchod yn amlygu y gall ymrwymiad gwleidyddol i ddarparu tai o ansawdd drwy lunio polisi (yn arbennig er mwyn annog cyflenwad) helpu i wireddu’n raddol yr hawl i dai digonol. Mae astudiaethau achos rhyngwladol yn darparu gwersi gwerthfawr ar gyfer gweithredu’r hawl i dai digonol yng Nghymru, yn benodol mewn perthynas â: (i) gwireddu'n raddol; (ii) llywodraethiant, a (iii) cyflenwad tai.

*i.* *Gwireddu'n raddol.* Mae symud tuag at gyflawni hawl gyffredinol i dai digonol yn nod na ellir ei wireddu ar unwaith o ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Mae hynny yn wir yn achos Cymru heddiw, ac roedd yn wir hefyd yn achos yr holl astudiaethau achos ar yr adeg pan fu i’r gwledydd hynny gyflwyno ffurfiau ar hawl i dai digonol. “Gwireddu'n raddol” yw’r syniad y dylai llywodraethau wneud cynnydd parhaus tuag at wireddu hawl ddynol yn llawn, gan gymryd camau pwrpasol yn awr ac yn y dyfodol. Dyma’r llwybr dichonadwy i wledydd sydd yn cyflwyno’r hawl i dai digonol. Mae’r Ffindir yn arwain y ffordd o ran darparu

trywydd ar gyfer gwireddu'n raddol. Ers i'r hawl i dai digonol gael ei chyflwyno yn eu cyfansoddiad 21 mlynedd yn ôl, bu gwelliant parhaus ond graddol gyda chynnydd sylweddol mewn cyflenwad tai, sy'n rhoi'r Ffindir ar y trywydd i roi diwedd ar ddigartrefedd erbyn 2027.

*ii.* *Llywodraethu.* Mae mecanweithiau'n rhan allweddol o wireddu'n raddol yr hawl i dai digonol, Ac mae gwersi i'w dysgu o ran llywodraethu gan amrywiol awdurdodaethau: • Yn Y Ffindir, caiff hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol eu deddfu drwy gyfreithiau, gaiff eu hasesu ymlaen llaw gan Bwyllgor Cyfraith Gyfansoddiadol y Senedd cyn iddynt gael eu pasio a'u hystyried yn draddodadwy gan y llysoedd. Mae hynny yn cynnwys newidiadau polisi sy'n effeithio ar yr hawl i dai digonol. • Yng Nghanada, ochr yn ochr â chyflwyno'r hawl i dai digonol, cyflwynwyd tri chorff atebolrwydd er mwyn monitro, hyrwyddo a gwarchod yr hawl. Mae'r model yng Nghanada yn unigryw; fod bynnag, mae'n un diweddar ac ni allem ganfod tystiolaeth o'i effeithlonrwydd. • Diffyg mecanweithiau llywodraethu addas sy'n gyfrifol am y lefelau cynnydd is yn Ffrainc a Sbaen. Mae strwythur pan nad yw creu deddfau yn gwanhau'r hawl i dai digonol yn allweddol i sicrhau gwireddu'n raddol.

*iii.* Cyflenwad Tai. Mae cynyddu cyflenwad tai a gwella digonolrwydd y stoc presennol yn allweddol i wireddu'n raddol. Mae hyn yn ysgogydd allweddol yn y gwahaniaeth rhwng y canlyniadau llwyddiannus iawn yn Y Ffindir dros amser o'i gymharu â gwledydd megis De Affrica, sydd â lefelau tebyg o uchelgais cyfreithiol ynghyd â lefelau is o adnoddau i gynyddu'r stoc o dai digonol, yn bennaf oherwydd bod De Affrica yn wlad sy'n llai datblygedig yn economaidd. Er mwyn gwireddu'r gwelliannau hyn mewn cyflenwad tai a digonolrwydd y stoc presennol, mae angen buddsoddiad newydd. Gallai hynny ddod gan y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

### Y cyfle i Gymru

Mae'r hawl i dai digonol yn rhan hanfodol o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Drwy wireddu'n raddol dros amser, byddai cyflwyno'r hawl hon yng Nghymru yn arwain at gynnydd parhaus tuag at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb tai yng Nghymru a rhoi diwedd ar y costau i aelwydydd a gwasanaethau cyhoeddus sy'n deillio o fyw mewn tai annigonol. Er bod y rhan fwyaf o'r gwledydd yn yr astudiaethau achos wedi mynd ymhellach na Chymru ar hyn o bryd o ran uchelgais eu deddfwriaeth, ac wedi cyhoeddi bwriadau i greu mwy o ddeddfau, mae yna wendidau ym mhob un o'r astudiaethau achos. Mae hynny yn rhoi cyfle i Gymru ddefnyddio gwersi a ddysgwyd er mwyn bod yn batrwm rhyngwladol o ran sefydlu a gwireddu'r hawl i dai digonol. Byddai'r Bil Drafft a gynigir gan ymgyrch Cefnogi'r Bil yn creu hawl draddodadwy gryfach nag sydd wedi ei sefydlu yn unrhyw un o'r gwledydd yn yr astudiaethau achos, gyda llywodraethiant clir ar gyfer ysgogi gwireddu'n raddol, yn cynnwys cyflwyno asesiadau o'r effaith ar dai ar gyfer llunio deddfau a pholisïau newydd sydd yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar dai (yn cynnwys dyrannu cyllid) ac adroddiad cynnydd rheolaidd i'w cyflwyno i'r Senedd.


### COST A BUDDION

Fe wnaethom gomisiynu Alma Economics i gynnal ymchwil ail gam annibynnol, sef dadansoddiad cost a budd o ganlyniad i gyflwyno hawl i dai digonol yng Nghymru. Fe wnaethom gyhoeddi'r ymchwil ar ôl iddo gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r adran

hon o’r ymgynghoriad yn cyfeirio’n bennaf at ganfyddiadau Alma Economics o’i grynodeb gweithredol (ar ddechrau ei adroddiad). Mae mwy o fanylion i’w cael yn ddiweddarach yn yr un adroddiad.

**Prif ganfyddiadau**

Canfu Alma Economics fuddion i bwrs y wlad o £11.5bn yn erbyn costau cyffredinol o £5bn dros gyfnod o 30 mlynedd. Rhagamcanir y gallai'r buddion hynny ddechrau mynd yn drech na’r costau ar ôl dim ond chwe blynedd.




Am bob £1 gaiff ei gwario ar yr hawl i dai digonol, mae’r papur yn tynnu sylw at y ffaith y ceir £2.30 mewn buddion (ac mae pob un o’r categorïau y cyfeirir atynt isod yn cael eu harchwilio’n fanylach yn yr adroddiad). Byddai hyn yn:

- arbed **£5.5bn** ar wella llesiant;
- arbed **£2bn** o gyllidebau cynghorau lleol;
- arbed **£1bn** i’r GIG; (mae hyn yn debygol o fod yn uwch, ac yn ychwanegol at arbedion fyddai’n deillio o bolisïau tai presennol Llywodraeth Cymru).
- arbed **£1bn** i’r system cyfiawnder troseddol; a
- chynhyrchu **£1bn** o weithgarwch economaidd ychwanegol;

Un o'r prif dybiaethau yw y bydd yr hawl i dai digonol (RTAH) yn cael ei wireddu’n raddol dros gyfnod o 10 mlynedd, sy’n golygu bod polisïau newydd yn cael eu cyflwyno dros 10 mlynedd i gefnogi pobl i gael mynediad i dai digonol. Ond, yn ymarferol, gallai gwireddu RTAH yn raddol gymryd mwy neu lai o amser i’w gyflawni. Mae hynny’n golygu y bydd costau a buddion cyflwyno RTAH yn cael eu gwireddu’n arafach neu’n gyflymach, ond ni ddisgwylir i’r gymhareb buddion/costau newid yn sylweddol (ac fe’i haddaswyd ar gyfer chwyddiant).

Er byddai’r RTAH yn cael ei wireddu’n raddol ac yn cael ei gyflawni’n llawn ymhen 10 mlynedd, mae effaith costau a buddion cyflwyno'r RTAH yn ymestyn dros 30 mlynedd. Mae’r model yn amcangyfrif costau yn ogystal a buddion diriaethol ac anniriaethol o’i gymharu â senario ‘busnes fel arfer’, hynny yw senario pan nad yw’r RTAH yn cael ei gyflwyno o gwbl. Ar y llaw arall, petai Cymru yn ddamcaniaethol ac yn gyfan gwbl ar y llwybr tuag at dai digonol cyffredinol o dan bolisïau presennol, ni fyddai cyflwyno’r RTAH yn cynhyrchu unrhyw

gostau na buddion ychwanegol, ond byddai yn hytrach ond yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i wireddu tai digonol i bawb yn y wlad.

### Un senario ar gyfer cyflwyno hawl i dai digonol yng Nghymru

Nid yw'r RTAH yn set o'r holl gamau a pholisïau llawn sydd yn ofynnol er mwyn symud tuag at dai digonol cyffredinol, ond yn hytrach mae'n ymrwymiad cyfreithiol lefel uchel i symud i'r cyfeiriad hwnnw. Ar gyfer yr adroddiad a gomisiynwyd gennym, mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar *senario benodol* ar gyfer gwireddu'r RTAH yn raddol. *Mae'r llwybr hwn yn cynrychioli un o nifer o lwybrau posibl*, ac fe'i defnyddir i ddangos costau a buddion cyflwyno RTAH yng Nghymru, ym mha ffordd bynnag fyddai'r hawl hon yn cael ei gweithredu. Drwy gydol yr adroddiad, mae'r awduron yn trafod ble gallai tybiaethau penodol sy'n bwydo i'r dadansoddiad gael eu newid heb newid casgliadau'r adroddiad yn sylweddol.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf, o dan bolisïau presennol, *mae Cymru wedi bod ar lwybr tuag at welliannau sylweddol mewn digonoldeb tai.* Bydd polisïau a gyhoeddwyd, megis polisïau datgarboneiddio a newidiadau posibl i Safon Ansawdd Tai Cymru, yn gwella pa mor addas yw tai ar gyfer byw ynddyn nhw drwy wella cysur thermol cartrefi, lleihau biliau ynni, gwella diogelwch ffisegol adeiladau a lleihau cyffredinrwydd damp. Ond mae yna lawer mwy i'w wneud, yn benodol ar bolisïau cysylltiedig ag agweddau eraill o dai digonol cyffredinol, megis polisïau digartrefedd, a rhai meysydd o ddigonoldeb, megis addasu'r stoc dai ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio a bodloni anghenion penodol. Yn ein model ni, rydym yn tybio y byddir yn mynd i'r afael â'r 'lle i wella' hwn drwy gyflwyno'r RTAH, gan arwain at roi diwedd ar ddigartrefedd ac addasu pob cartref i anghenion y trigolion.

Mae'r senario yr ydym wedi ei datblygu yn cyfeirio at y buddion cyffredinol y bydd y RTAH yn eu creu o ystyried yr holl gostau a'r buddion i "gymdeithas", yn cynnwys y sectorau cyhoeddus a phreifat. Ond, nid yw'n rhagdybio dewisiadau polisi Llywodraeth Cymru ynghylch sut mae gwireddu'r buddion hyn. Byddai'r costau a buddion yr ydym wedi'u hamcangyfrif yn gallu cael eu cymhwyso'n gyffredinol i ystod o senarios ar gyfer sut y gellid gwireddu'r RTAH.

### Costau cyflwyno'r hawl i dai digonol yng Nghymru

Mae'r model yn cynnwys costau cysylltiedig ag adeiladu tai, sicrhau llety addas i aelwydydd digartref, megis drwy daliadau blaendal neu daliadau ôl-ddyledion rhent, yn ogystal â rhenti a dalwyd. Mae'r model hefyd yn tybio y bydd pob aelwyd fydd yn gadael digartrefedd yn parhau i dderbyn cymorth tai er mwyn cynnal eu llety. Mae Alma Economics hefyd yn ystyried costau addasu tai ar gyfer anghenion trigolion. Mae'r holl ffigyrau yn y modelu, yn cynnwys yr holl amcangyfrifon o fuddion a drafodir yn yr is-adran ddilynol, wedi cael eu haddasu ar gyfer chwyddiant ac yn cynrychioli gwerthoedd (real) 2025 cyson. Os bydd chwyddiant yn uwch neu'n is na'r disgwyl, ni fydd hynny yn effeithio ar brisiau real.

### Buddion cyflwyno'r hawl i dai digonol yng Nghymru

Mae'r canfyddiadau allweddol yn awgrymu y byddai'r senario penodol a fodelwyd ar gyfer gwireddu'r RTAH yn raddol mewn cyfraith Cymru yn creu buddion economaidd-gymdeithasol fyddai'n *sylweddol fwy* na'r costau. Disgwylir y byddai ysgwyddo costau o £5bn ar gyfer gwireddu'r RTAH yn raddol dros ddeng mlynedd yn cynhyrchu £11.5bn mewn buddion economaidd a cymdeithasol dros gyfnod o 30 mlynedd. Mae'r gwerth presennol net gostyngol (h.y. Cyfanswm buddion gostyngedig llai cyfanswm costau gostyngedig) yn hafal i £6.5 biliwn, ac mae'r Gymhareb Cost a Budd (BCR) yn hafal i 2.3, sy'n golygu y byddai pob £1 o wariant ar ddarparu tai digonol yng Nghymru yn creu tua £2.30 mewn buddion. Mae hynny yn ychwanegol at fuddion sylweddol sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y senario busnes


fel arfer o ddim ond dilyn polisïau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi. O dan y senario busnes fel arfer, gan dybio y bydd pawb yng Nghymru yn byw mewn tŷ gradd A EPC erbyn 2050, rydym yn amcangyfrif y bydd polisïau dan datgarboneiddio yn creu buddion iechyd a llesiant o dros £30 biliwn. Bydd y buddion o ganlyniad i gyflwyno'r RTAH yn ychwanegol at y buddion a grëir gan bolisïau i daclo'r argyfwng hinsawdd, yn benodol o ran cefnogi a hybu'r agenda datgarboneiddio.

Mae Ffigur 1 isod yn dangos gwerth presennol y costau a buddion a grëir dros gyfnod o 30 mlynedd ar ôl cyflwyno'r RTAH ym Mlwyddyn 1. Mae'r rhan fwyaf o'r costau cysylltiedig ag adeiladu tai ac addasu tai yn cael eu cynhyrchu yn ystod Blwyddyn 1 i Flwyddyn 10. Mae adeiladu tai yn parhau o Flwyddyn 10 i Flwyddyn 30, oherwydd ein bod yn tybio ar ôl Blwyddyn 10 y bydd yna 500 o aelwydydd digartref newydd y flwyddyn fydd yn cael eu cefnogi i adael digartrefedd yn gyflym drwy ddarparu tai newydd eu hadeiladu iddynt (mae hynny yn ychwanegol at y 20,000 o gartrefi y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo iddynt yn ystod tymor y Senedd hon). Mae costau eraill cysylltiedig â darparu cymorth tai i aelwydydd sy'n gadael digartrefedd, rhenti a chostau sicrhau llety addas, yn parhau tan Flwyddyn 30. Mae'r buddion, yn cynnwys arbedion i'r sector cyhoeddus a phreifat, yn ogystal ag enillion llesiant, yn dechrau cael eu gwireddu o Flwyddyn 1, pryd y bydd cyfran o aelwydydd digartref yn gadael digartrefedd ac y bydd y stoc dai yn dechrau cael eu haddasu yn gyflymach nag o dan bolisïau presennol. Ym Mlwyddyn 6 a thu hwnt, mae'r buddion yn dechrau bod yn drech na'r costau. Mae hynny'n golygu, cyn Blwyddyn 10, sef y flwyddyn y bydd y RTAH yn cael ei wireddu'n llawn, y bydd cyflwyno'r RTAH yn creu mwy o fuddion na chostau. Mae swm gwerth presennol y costau a buddion a nodir yn y ffigur isod yn hafal i £5 biliwn a £11.5 biliwn, yn ôl ei trefn.

Hefyd disgwylir i'r senario ar gyfer gwireddu'r RTAH yn raddol yng Nghymru greu rhai buddion ariannol gwrthbwysol. Yn seiliedig ar y canfyddiadau o Gam 1, gall rhoi diwedd ar ddigartrefedd ac addasu tai greu tua £1 biliwn o arbediadau cost i GIG Cymru dros gyfnod o 30 mlynedd o ganlyniad i ddefnyddio llai driniaethau cyffuriau ac alcohol, a llai o angen am wasanaethau iechyd meddwl, yn ogystal â buddion o ganlyniad i ostyngiad mewn damweiniau yn y cartref. Bydd cyflwyno'r RTAH yng Nghymru yn cefnogi cynlluniau presennol tuag at greu Cymru Iachach ac yn cyfrannu at roi GIG Cymru ar lwybr cynaliadwy. Gallai cefnogi aelwydydd digartref i gefnu ar ddiweithdra greu allbwn economaidd ychwanegol o tua £900 miliwn dros 30 mlynedd. Mewn perthynas ag arbedion cost i'r system cyfiawnder troseddol, mae'r adroddiad yn amcangyfrif y gellid arbed tua £1.3 biliwn. Hefyd, gall mynediad at dai digonol arwain at lai o droseddu, a thrwy hynny llai o ddioddefwyr troseddau a mwy o ddiogelwch cymunedol (Alma Economics, 2021). O ganlyniad i ddiffyg tystiolaeth feintiol, mae'r astudiaeth hefyd yn trafod yn ansoddol effeithiau cadarnhaol posibl digonoldeb tai ar ddeilliannau addysgol, gan ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth a ddisgrifir yn ein hadroddiad Cam 1.

Mae'r model hefyd yn cynnwys buddion ar gyfer awdurdodau lleol o ganlyniad i lai o ddefnydd o wasanaethau digartrefedd, yr amcangyfrifir sydd tua £2 biliwn. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried gwell llesiant i aelwydydd o ganlyniad i adael digartrefedd i dai diogel, yn ogystal ag o ganlyniad i lai o beryglon mewn tai o ganlyniad i addasiadau i dai (£5.5 biliwn). Mae'r model hefyd yn cynnwys gwerth rhentu tai newydd eu hadeiladu, yr amcangyfrifir ei fod yn tua £1 biliwn.

**Figure 1. Present value of costs and benefits of the RTAH over 30 years**




O ran iechyd a lles, er enghraifft, mae'r adroddiad yn nodi y byddai gwell ansawdd ac addasrwydd cartrefi yn arwain at lai o dderbyniadau i'r ysbyty; yn yr un modd, gyda chynnydd graddol yn nifer y cartrefi addas sydd ar gael, byddai llai o ddibyniaeth ar wasanaethau cyngor a gwasanaethau cymorth digartrefedd eraill, gan arwain at arbedion pellach i pwrs y wlad.

Yn eu hadroddiad, mae Alma Economics hefyd yn dangos sut byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cefnogi blaenoriaethau pwysig i Lywodraeth Cymru a phobl Cymru, fel datgarboneiddio'r stoc dai ledled Cymru erbyn 2050 a darparu cartrefi sy'n addas ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio. Hefyd, byddai hawl i dai digonol yn ysgogi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau drwy leihau gorlenwi a chefnogi pobl anabl yn well i gael mynediad at gartrefi sy'n diwallu eu hanghenion.

**Y LLWYBR AR GYFER GWEITHREDU**

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llafur Cymru a Phlaid Cymru gytundeb cydweithredu tair blynedd ar draws 46 o feysydd polisi cyhoeddus. Mae'r cytundeb yn cynnwys cyfeiriad at hawl i dai digonol:

> ***Eiddo a Rhenti Teg*** *- Cyhoeddi Papur Gwyn fydd yn cynnwys cynigion parthed hawl i dai digonol, y rôl y gallai system o renti teg (rheoli renti) ei chael o ran gwneud i'r farchnad rhentu preifat fod yn fforddiadwy i bobl leol ar incwm lleol, a dulliau newydd o wneud tai yn fforddiadwy.*

Roedd partneriaid Cefnogi'r Bil yn croesawu'r ymrwymiad ar yr adeg y'i cyhoeddwyd, ac ers hynny rydym wedi gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ar baratoi'r tir drwy rannu tystiolaeth ac arbenigedd.

Ym mis Chwefror 2023 disgwylir i Bapur Gwyrdd gael ei gyhoeddi, ac yna Papur Gwyn yn ddiweddarach. Rydym ym edrych ymlaen at ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a phartïon eraill â buddiant ynghylch y ddau bapur.

**CASGLIAD**

Mae Cymru, fel gweddill y DU yng nghanol un o'r argyfyngau tai mwyaf dwys a phellgyrhaeddol yr ydym wedi ei weld yn yr oes fodern: argyfwng sydd yn effeithio'n ddifrifol ar wead ein cymdeithas - o ddigartrefedd a llety dros dro i ansawdd gwael ac amodau tai anaddas.

Felly, fel cymdeithas, faint o flaenoriaeth ydym eisiau ei roi ar dai er mwyn sicrhau mynediad cyffredinol i'r hawl ddynol fwyaf sylfaenol - lle diogel a saff a fforddiadwy y gall pob un ohonom ei alw'n gartref. Yn ein barn ni, wrth wraidd unrhyw ateb i'r argyfwng tai dylai fod ymrwymiad cenedlaethol i'r egwyddor sylfaenol fod gan bob un ohonom ni hawl ddynol, wedi'i seilio ar y gyfraith, i gael mynediad i dai digonol a chynaliadwy. Rydym angen gweledigaeth a fframweithiau cyfreithiol fyddai'n ein helpu i newid paradeim mewn perthynas â sut mae mater tai yn cael ei ddeall - sef ei fod yn rhywbeth canolog i urddas pob person. Yn ein barn ni, dylai ymgorffori'r Hawl i Dai Digonol, fel y nodir yn y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, yn neddfwriaeth Cymru fod yn rhan fawr o'r broses honno. Rydym yn credu bod yr adroddiad yn cyflwyno achos darbwyllol o blaid ymgorffori'r Hawl i Dai Digonol yng nghyfraith Cymru, a hefyd yn nodi'r trywydd ar gyfer cyrraedd yno. (Amlinellwyd hynny yn glir gan Leilani Farha, cyn Rapporteur Arbennig y CU ar dai digonol pan siaradodd yng nghynhadledd flynyddol Tai Pawb yn 2021).

Rydyn ni yn credu bod ein hastudiaeth dichonoldeb, sylfaen dystiolaeth a'r dadansoddiad cost a budd yn gwneud achos grymus dros ymgorffori'r Hawl i Dai Digonol, fel y nodir yn y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (**"y Cyfamod"**), yng nghyfraith Cymru. Mae hefyd yn nodi map o'r llwybr ar gyfer cyflawni hyn. Mae hon yn alwad i bob un ohonom ailfeddwl yn sylfaenol am y gwerth a roddwn ar dai cymdeithasol a phob math o dai, a'r rôl y mae'n rhaid i frics a morter syml ei chwarae fel man cychwyn ar gyfer unrhyw fath o adfywiad cymunedol, economaidd a chymdeithasol.

Mae cyflwyno hawl i dai digonol yng Nghymru yn fwy na dim ond cefnogi polisi tai, mae'n ei ehangu - o'r Ddeddf Rhentu Tai (Cymru) a roddwyd ar waith yn ddiweddar i'r ddeddfwriaeth arfaethedig i roi diwedd ar ddigartrefedd, neu'r agenda datgarboneiddio a'r agenda safonau ôl-osod - gan eu tanategu gyda dull seiliedig ar hawliau.

Rydym yn dadlau bod hawl i dai yn un o'r rhoddion mwyaf y gallwn ei rhoi i genedlaethau'r dyfodol.

Yng ngeiriau'r cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe:

> *"Gall cartrefi fforddiadwy, diogel, cysylltiedig, ynni-effeithlon helpu i gadw pobl yn iach, a byddai hawl i dai mewn cyfraith yn ein helpu i gyrraedd yr amcanion a bennwyd gan ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol unigryw, gan atal digartrefedd, gostwng cost cynnal cartref, gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd a'n caniatáu i gynllunio'n well ar gyfer gofalu am bobl yn eu henaint."*

Mae'r sylfaen dystiolaeth. Yr ydym wedi ei choladu a'i chyhoeddi yn dangos yn glir beth yw pŵer newid cadarnhaol. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod bod Cymru eisoes ar lwybr cadarnhaol yn y maes hwn. Ond, rydym yn gwybod bod tai o ansawdd gwael yn effeithio'n negyddol ar ansawdd iechyd unigolion a'u cyfleoedd bywyd, yn ogystal ag amrywiaeth o sgil-effeithiau (costus) eraill ar feysydd polisi cyhoeddus.

Mae'r astudiaethau achos yn dangos bod cyflwyno hawl cyfreithiol i dai digonol mewn deddfwriaeth yn amod angenrheidiol er mwyn sicrhau hawl wedi ei wireddu'n raddol, a hawl y gellir ei orfodi, i dai digonol - rhywbeth nad yw Cymru wedi ei gyflwyno hyd yma. Byddai'r

Bil Drafft yr ydym wedi ei gynnig yn creu hawl gryfach nag a sefydlwyd yn unrhyw un o'r gwledydd yn ar astudiaethau achos, gydag ysgogiad clir ar gyfer gwireddu'r hawl yn gyfan gwbl dros amser. Byddai hynny yn cynnwys cyflwyno asesiadau o'r effaith ar dai, er enghraifft, ac adroddiadau cynnydd rheolaidd gerbron y Senedd.

Yn ein barn ni mae'r ddadl foesol dros hawl i dai digonol wedi ei hennill - ac erbyn hyn, ynghyd â dadansoddiad cost a budd, rydym yn credu y gall model 'buddsoddi i arbed' drawsnewid Cymru'r dyfodol.

Rydym yn cydnabod na all yr hawl i dai digonol ddigwydd dros nos. Yn hytrach, drwy ddefnyddio'r cysyniad o wireddu'n raddol a sail ein Bil Drafft i hysbysu ymrwymiad y Cytundeb Cydweithredu i Bapur Gwyn ar hawl i dai digonol, gallwn siapio 'ffordd Gymreig' unigryw ymlaen; gan sicrhau, gydag amser, y gall pawb yng Nghymru gael yr hawl i gartref da.

Heb os, mae pawb yng Nghymru yn haeddu cartref sy'n ddiogel, sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ac y gallant ei fforddio.

*Os nad nawr, yna pryd? Ac os nad ni, pwy?*

-

**GAIR AM Y SEFYDLIADAU PARTNER**

Mae **Tai Pawb** yn gweithio i hybu cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru. Rydym yn dychmygu Cymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref da www.taipawb.org

Mae **CIH Cymru** yn cefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes tai i greu dyfodol lle mae gan bawb le i'w alw'n gartref. Ni yw'r corff proffesiynol ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes tai, y llais annibynnol dros dai a chartref safonau proffesiynol www.cih.org

Mae **Shelter Cymru** yn bodoli i amddiffyn yr hawl i gartref diogel. Rydym yn helpu miloedd o bobl bob blwyddyn yng Nghymru drwy gynnig cyngor annibynnol am ddim www.sheltercymru.org